





Mae addysg yng Nghymru yn newid

Rydym eisiau
eich adborth ar y
cwricwlwm newydd

Sut mae cynnal grŵp
ffocws i gasglu adborth
plant a phobl ifanc ar
y cwricwlwm newydd



Cyflwyniad

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y sesiynau adborth ar y cwricwlwm newydd i Gymru gyda'ch grŵp ieuenctid/dosbarth.

Mae Dynamix wedi trefnu cyfres o weithgareddau er mwyn i chi gasglu barn plant a phobl ifanc ar eu haddysg. Mae'n gyfle inni gyfeirio at ymgynghoriad 2015 a gynhaliwyd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'.

Mae pob gweithgaredd yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ond os ydych chi'n ansicr am unrhyw beth, cysylltwch â **Dynamix** ar **01792 466231**.

Cofiwch:

- Cyfle i bobl ifanc roi adborth yw hwn. Os oes gennych chi adborth ar y cwricwlwm ewch i <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/dweud-eich-dweud/>
- Rydyn ni wedi cynnwys ambell awgrym i'w ddefnyddio os yw'r grŵp yn ansicr o'r hyn sydd ei angen ond gofynnwn yn garedig mai dim ond os oes tawelwch y dylech ddefnyddio'r awgrymiadau – ni ddylid eu defnyddio i lywio'r sgwrs.
- **MWYNHEWCH**

Rhoi'r adborth inni...

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cymryd cynifer o nodiadau ag y gallwch chi yn ystod y gweithdy a'u dychwelyd inni mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- E-bostio lluniau o'r holl ddarnau papur (gan sicrhau bod yr ysgrifen yn glir, byddwn ni'n teipio'r holl nodiadau) a'u hanfon at **hub@dynamix.coop**
- Drwy'r post – cadwch bopeth gyda'i gilydd, ei labelu'n glir, rhoi'r cyfan mewn amlen a'i anfon i Dynamix, Uned 4D, Heol y Cwm, Hafod, Abertawe SA1 2AY
- Trydar lluniau o'r sesiynau grŵp **@dynamixcoop**
#TrafodCwricwlwm
#CwricwlwmiGymru



Cyflwyno'r sesiwn i bobl ifanc

Ydych chi wedi clywed bod addysg yng Nghymru yn newid?

Efallai eich bod chi wedi sylwi ar ychydig o'r newid hwnnw'n barod, ond mae'n mynd i gael mwy o effaith ar y plant a'r bobl ifanc sy'n eich dilyn drwy'r ysgol.

Mae'r cyfan yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i wella dysgu – mae eich athrawon, cyflogwyr yn y dyfodol a gwleidyddion i gyd yn cytuno bod angen i hyn ddigwydd. Gobeithio eich bod chi'n cytuno hefyd, a hoffen ni i chi ddweud wrthon ni a ydyn ni ar y trywydd iawn.

Mae dros 26,000 o athrawon yng Nghymru, sy'n dysgu miliynau o ffeithiau a ffigyrau, mewn llwythi o bynciau, i bron i hanner miliwn o blant a phobl ifanc mewn dros 1,500 o ysgolion a gynhelir. Mae athrawon hefyd yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau bywyd ac yn eu paratoi nhw at y dyfodol ar ôl yr ysgol.



**RYDYN NI EISIAU
EICH ADBORTH CHI
WRTH INNI NEWID.**

Y stori hyd yn hyn...



Yn 2015, ysgrifennodd yr Athro Donaldson adroddiad pwysig o'r enw *Dyfodol Llwyddiannus* gyda'r nod o gynnig **dyfodol llwyddiannus a chyffrous** i blant a phobl ifanc Cymru.

Cafodd pawb gyfle i fynegi barn a syniadau yn y **Sgwrs Fawr**, a arweiniodd at:

Adroddiad mwy manwl o'r enw *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (2015).


Roedd hwn yn amlinellu'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni.

Gofynnwyd i ysgolion ledled Cymru helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a rhoi'r newidiadau ar brawf i weld a oedden nhw'n gweithio. **Ysgolion arloesi** yw'r enw rydyn ni'n ei roi ar y rhain.

Ers 2015 mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio ag ysgolion ac arbenigwyr i gynllunio cwricwlwm newydd i Gymru.

Ym mis Ionawr 2019 rhannwyd dogfen gyfreithiol ynghylch y newidiadau er mwyn i bobl allu gwneud sylwadau arni. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried y safbwyntiau hyn ac yn bwriadu gwneud rhai o'r newidiadau a awgrymwyd.

Ar 30 Ebrill 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar sut y gall ysgolion greu cwricwlwm newydd. Dechreuodd y cyfnod adborth ar **30 Ebrill** a bydd yn cau ar **19 Gorffennaf 2019**.



Beth nesaf?


Mae'r cyfnod adborth bellach ar agor a bydd yn cau ar **19 Gorffennaf 2019**.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fireinio'r Cwricwlwm drafft i Gymru ymhellach cyn y gellir ei weld ym **mis Ionawr 2020**.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n dal ar y trywydd iawn i wella addysg ar gyfer plant a phobl ifanc hoffem ni wybod ambell beth gennych chi.

Mae eich gweithiwr ieuenctid yn mynd i gynnal gweithgareddau gyda chi fel y gallwch chi adael inni wybod beth sy'n bwysig am eich addysg.

Er mwyn i'r cwricwlwm newydd weithio'n dda, mae angen sylfaen gadarn i adeiladu arni, felly rydyn ni wedi meddwl am bedwar diben, sef ein **man cychwyn**.



Bydd y **Pedwar Diben** yn helpu dysgwyr i fod yn:

Uchelgeisiol a galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Cyfranwyr mentrus a chreadigol, yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.

Dinasyddion **egwyddorol a gwybodus** yng Nghymru a'r byd.

Iach a hyderus, yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rydyn ni'n meddwl bod angen mwy o hyblygrwydd ar athrawon i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r Pedwar Diben. Er mwyn helpu athrawon rydyn ni'n cynnig rhannu dysgu i chwe Maes Dysgu a Phrofiad (sy'n dipyn o lond ceg, felly rydyn ni am eu galw'n MDaPh).


Fel canllaw i athrawon, rydyn ni'n mynd i restru **prif agweddau dysgu** pob MDaPh, a'u galw'n ddatganiadau o'r '**hyn sy'n bwysig**'. Bydd y rhain fel llawlyfr, neu lyfryn cyfarwyddiadau. Mae'n rhaid i bob ysgol sicrhau ei bod yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn '**sy'n bwysig**' wrth gynllunio gwersi.

Felly mae prif agweddau dysgu i bob MDaPh, a bydd datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn gymorth i athrawon, gan y byddan nhw'n eu helpu nhw i gynllunio gwersi sy'n cyd-fynd ag anghenion dysgwyr fel y gallan nhw elwa cymaint â phosibl ar bopeth maen nhw'n ei ddysgu.

Os hoffech chi roi adborth mwy manwl ar **Cwricwlwm drafft i Gymru 2022** neu am ragor o wybodaeth ewch i <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/dweud-eich-dweud/>

Bydd plant a phobl ifanc yn dal i ddysgu'r pynciau maen nhw eisoes yn gyfarwydd â nhw, ond caiff y pynciau eu grwpio o dan y penawdau eang hyn:

- **Celfyddydau Mynegiannol**
- **Iechyd a Lles**
- **Y Dyniaethau**
- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- **Mathemateg a Rhifedd**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**



Cwestiwn 1

Beth ydych chi'n ei feddwl yw'r tri pheth pwysicaf (ar wahân i gymwysterau) y dylech eu hennill o'ch addysg?



Gweithgaredd 1
Rhoi trefn ar nodiadau gludiog!

Beth rydyn ni eisiau ei wybod?

- Barn pobl ifanc ar y pethau pwysicaf i'w hennill o'u cyfnod yn yr ysgol
- Sut mae'r rhain yn uniaethu â themâu 'beth sy'n bwysig' ymgynghoriad 2015
 - Gwybodaeth
 - Sgiliau cymdeithasol/Ymddygiad cymdeithasol
Er enghraifft: gweithio gydag eraill, cyfathrebu a dod yn annibynnol, gwaith tîm.
 - Cyfeillgarwch
 - Hyder
 - Sgiliau ar gyfer gwaith
 - Iechyd a ffitrwydd
 - Arall

Adnoddau angenrheidiol

- Nodiadau gludiog
- Siartiau troi/papur wal
- Peniau trwchus

Amser

Tua 20 munud



Rhan 1



Grwpiau

Rhannwch y plant/pobl ifanc yn grwpiau bach (mwyafswm o 5 person ifanc i bob grŵp). Mae hyn yn dibynnu ar faint y grŵp, ac ar ba mor hyderus ydyn nhw i siarad o flaen ei gilydd; yr hwylusydd fydd yn penderfynu sut i wneud hyn. (Gweler *Atodiad 1 am syniad o sut i gymysgu pawb mewn ffordd sy'n hwyl*).

Rhan 2



Trafodaeth

Rhowch 5 munud i bob grŵp gael trafod 'beth yw'r pethau pwysicaf y dylen ni eu hennill o'r ysgol?' Gofynnwch i'r grwpiau ysgrifennu un syniad ar bob nodyn gludiog a sticio eu hawgrymiadau ar siart wal/siart droi ym mlaen yr ystafell.

**Y pethau
pwysicaf i'w
hennill o'r
ysgol**
(heblaw am
gymwysterau)

Rhan 3

Categoreiddio

Fel grŵp, categoreiddiwch y nodiadau 'beth sy'n bwysig' i'r penawdau canlynol, fel sy'n cael eu dangos isod. Gellir tynnu llun o hwn ar bapur siart droi/papur wal.

Gwybodaeth

Cyfanswm

Cyfeillgarwch

Cyfanswm

**Sgiliau ar gyfer
gwaith**

Cyfanswm

Arall

Cyfanswm

**Iechyd a
ffitrwydd**

Cyfanswm

**Sgiliau cymdeithasol/
Ymddygiad
cymdeithasol**

Cyfanswm

Hyder

Cyfanswm

Cwestiwn 2

Beth yw'r tri pheth gorau
am eich addysg?

Gweithgaredd 2

Y podiwm positif

Beth rydyn ni eisiau ei wybod

- Beth mae pobl ifanc yn meddwl yw'r 'Pethau gorau' am eu haddysg.
- Y stori/naratif y tu ôl i'r tri pheth gorau am addysg.

Adnoddau angenrheidiol

- Pob un o'r 'Pethau gorau' canlynol ar daflen unigol o bapur A4/A3 ar y waliau o gwmpas yr ystafell neu wedi eu gosod ar y llawr/bwrdd.
 - **Gwaith ysgol**
Er enghraifft: pynciau, gwersi, gwahanol ffyrdd o ddysgu, gweithgareddau grŵp, ac ati.
 - **Ffrindiau**
 - **Staff**
Er enghraifft: athrawon, athrawon cyflenwi, cynorthwywyr dysgu, ac ati.
 - **Hwyl**
 - **Tripiau ysgol**
 - **Cyfleusterau**
Er enghraifft: chwaraeon, llyfrgell, maes chwarae, gofod tu allan, adeilad(au) yr ysgol, ac ati.
 - **Awyrgylch – y teimlad mae'r ysgol yn ei roi i chi.**
Er enghraifft: diogel, hapus, cysurus, croesawgar, cyfeillgar, ac ati.
 - **Cost (addysg am ddim)**
 - **Amser egwyl**
 - **Arall**
- Dotiau gludiog/peniau trwchus

Amser

15–20 munud






Rhan 1

Cyflwyniad

Cyflwynwch y categorïau 'Pethau gorau' a sefydlwyd o'r ymgynghoriad gyda phobl ifanc yn 2015. Rhowch esboniad bras o bob un.



Rhowch 3 dot gludiog i bob cyfranogwr a gofynnwch iddyn nhw 'bleidleisio dot' dros yr opsiynau a roddir, dylen nhw bleidleisio dros y tri dewis 'mwyaf pwysig' yn eu barn nhw.

Os oes unrhyw un yn meddwl bod rhywbeth ar goll o'r categorïau, gellir ychwanegu'r opsiynau hynny i'r categori 'arall'.

NODER: os nad oes dotiau gludiog ar gael, gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio peniau trwchus ond i beidio â bwrw mwy na 3 pleidlais.

Rhan 2

Pleidleisio dot



Rhan 3


Dewis y **TRI GORAU** ar gyfer podiwm yr enillwyr



Pam?



Pam?



Pam?

Unwaith i'r grŵp bleidleisio, cyfrwch y pleidleisiau a rhowch y tri uchaf ar y podiwm. Os oes dau opsiwn yn gyfartal, gallwch eu rhoi ar y podiwm gyda'i gilydd.

Pan fo'n bosibl, dylid gosod y dewisiadau sy'n weddill o'r 4ydd lle i lawr.

Defnyddiwch y gofod o dan y podiwm i nodi'r drafodaeth ynghylch pam mai'r rhain yw'r 'Pethau gorau' am addysg.

Cwestiwn 3

Pa dri phrif pheth sydd angen inni eu newid er mwyn gwella sut rydych chi'n dysgu a gwella eich profiad yn yr ysgol?

Gweithgaredd 3

Archarwr ysgol



Beth rydyn ni eisiau ei wybod?


- Materion y gallai pobl ifanc eu hwynebu yn yr ysgol.
- Awgrymiadau gan bobl ifanc am beth maen nhw'n teimlo sydd angen ei newid er mwyn gwella eu haddysg.
- Y tri i bum peth fyddai'n gwella eu haddysg fwyaf.

Adnoddau angenrheidiol

- Siartiau troi/papur wal
- Peniau trwchus
- Rhestr o newidiadau posibl

Amser


15–20 munud



Rhan 1

Creu archarwr ysgol

Gallwch chi wneud hyn wrth rollo ambell daflen o bapur siart droi/papur wal allan ar y llawr a darlunio o gwmpas un o'r cyfranogwyr, neu ddefnyddio archarwr llai sydd wedi ei ddarlunio ar siart droi (gweler yr esiampl drosodd). Gofynnwch i'ch grŵp gytuno ar enw i'r person a rhywfaint o wybodaeth sylfaenol amdano fel oedran, rhywedd. Nid y bwriad yw i gyfyngu ar feddyliau'r bobl ifanc na chwaith i nodi oed neu ryw ond i'w cael i gychwyn trafod materion.




Rhan 2

Materion

Dechreuwch drafodaeth grŵp ynghylch pa fath o faterion a allai fod yn wynebu'r person ifanc hwn yn yr ysgol. Cofnodwch y materion hyn a'u rhoi tu allan i'r maes grym fel y dangosir isod.

***Awgrymiadau os oes angen:** bwlio, cael trafferth gyda rhai pynciau, ddim yn dod ymlaen gydag athrawon, bwyd, amseroedd egwyl, rheolau.*



RHYWEDD
Oedran

ENW

Rhan 3

Maes grym

Gofynnwch i'r cyfranogwyr feddwl am ffyrdd o amddiffyn y myfyriwr hwn rhag y materion hyn.

Ysgrifennwch rhain o gwmpas y corff yn y maes grym.

Awgrymiadau os oes eu hangen: gwell cefnogaeth i ddysgwyr, dosbarthiadau llai, mwy o opsiynau i wella iechyd, mwy o addysg gorfforol, llai o addysg gorfforol, cymysgedd o wersi.



Rhan 4

Y 5 newid gorau

Gofynnwch i'r grŵp benderfynu ar eu hoff 5 newid o'r maes grym a allai wella addysg ar gyfer eu Harcharwr Ysgol.

Rhowch gylchoedd clir o gwmpas y 5 peth mae'r grŵp yn eu dewis.

MATERION

MATERION

MATERION



MATERION

MATERION

MATERION

MATERION

MATERION



Atodiad 1

Ynysforoedd neu ynysoedd?

Gêm i gael pobl i symud ac eistedd drws nesaf i bobl wahanol.

Sut mae'n gweithio?

Gofynnwch i bawb sefyll mewn cylch a rhowch ddalen o bapur newydd iddyn nhw.

Gofynnwch iddyn nhw ei rwygo'n hanner a sefyll ar un o'r darnau.

Gofynnwch iddyn nhw wneud origami gyda'r hanner arall a gwnewch siarc drwy grensian y papur yn belen a'i thaflu i ganol y cylch.

Yna dywedwch wrthyn nhw nad ydyn nhw bellach yn sefyll ar ddarn o bapur mewn ystafell ond ar ynysoedd unigol ... ynysfor. Ond nid cyfres gyffredin o ynysoedd yw hon, ynysfor yn nhrefn yr wyddor yw hi – felly mae'n rhaid iddyn nhw drefnu eu hunain yn nhrefn yr wyddor wrth eu henwau cyntaf, gyda phob Aled ac Angharad ar un pen, a phob Wini ac Ynyr ar y pen arall. Os ydyn nhw'n camu yn y dŵr byddan nhw'n cael eu bwyta gan y siarcod felly mae'n rhaid iddyn nhw gyd-symud o gwmpas yr ynysoedd!


Gallwch chi osod cyfyngiad amser os hoffech chi, e.e. dwy funud.

Mesurwch eu llwyddiant drwy anfon Ton Fecsicanaidd o gwmpas y cylch wrth i chi alw llythrennau'r wyddor allan (maen nhw'n codi eu breichiau wrth i chi ddweud eu llythyren).

Gallwch chi nawr rannu'r rhai sy'n sefyll wrth ymyl ei gilydd yn grwpiau o 3, 4, 5.

Pam ydyn ni'n ei hoffi?

- Mae'n gwneud i bobl chwerthin fel arfer.
- Mae'n gwneud i bobl symud oddi wrth eu ffrindiau.
- Mae'r Don Fecsicanaidd yn dda i roi egni.
- Mae'n galluogi pobl i symud o gwmpas a gwneud sŵn rhwng cyfnodau tawel o wrando fel croesawu a chyflwyno.



Beth fydd ei angen arnoch chi?

- Dalen o bapur newydd ar gyfer pob person a llais swllyd!

Datblygiadau/addasiadau

- Does dim rhaid i chi ddefnyddio papur newydd, gallwch chi ddefnyddio cadeiriau neu sefyll.
- Does dim rhaid cael siarcod, gallech adael i bobl pobl gerdded o gwmpas.
- Gallwch chi roi trefn ar bethau eraill heblaw am enwau yn nhrefn yr wyddor, fel dyddiad geni, y pellter a deithiwyd i gyrraedd yma, rhifau tai (byddwch yn barod i roi rhifau ar hap i bobl sydd ond ag enw i'w tŷ! A dewch o hyd i'r rhif uchaf cyn gwneud y Don Fecsicanaidd ... efallai y bydd angen cyfri mewn cannoedd!)
- Gallwch chi anfon y Don Fecsicanaidd o gwmpas sawl tro.
- Gallwch chi wneud y don yn fach iawn – codi bys – neu'n fawr iawn – sefyll gyda breichiau yn yr awyr.
- Does dim rhaid cael cadeiriau, gallwch chi sefyll.
- Does dim rhaid gwneud cylch, gallwch chi ffurfio llinell o un pen yr ystafell i'r llall.



Crynodeb

Mae llawer o wybodaeth yma, felly dyma grynodeb



Rydyn ni eisiau sicrhau bod yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu a'i brofi yn yr ysgol yn eu paratoi nhw'n well ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol – eu gyrfa a'r rhan maen nhw'n ei chwarae yn eu cymuned leol.



Ein man cychwyn ni yw'r pedwar diben y cwricwlwm – helpu dysgwyr i fod yn uchelgeisiol ac galluog, yn flaengar a chreadigol, yn egwyddorol a gwybodus, ac yn iach a hyderus.



Mae angen i'n system addysg ni fod yn berthnasol i bobl ifanc, yn fwy rhwydd a hyblyg, felly rydyn ni'n mynd i drefnu pynciau yn feysydd dysgu a phrofiad fel y gall y pynciau presennol gael eu dysgu mewn ffordd sy'n eu cysylltu nhw.



Rydyn ni hefyd eisiau rhoi mwy o ryddid i athrawon yn y dosbarth ynghylch sut a beth maen nhw'n ei ddysgu (er, byddan nhw'n cael cymorth gan y 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig').



Caiff y cyfnodau allweddol eu newid i broses fwy graddol o ddysgu. Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mor bwysig, fel y byddan nhw'n ganolog i ddysgu, ac rydyn ni'n mynd i'w galw nhw'n Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd (CT).



Bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn statudol hyd at 16 oed ac yn llawer mwy eang (gyda ffocws ar gydberthnasau).



Bydd addysg grefyddol hefyd yn orfodol hyd at 16 oed, ac yn trafod gwahanol gredoau yn ogystal â safbwyntiau digrefydd.



Bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd a'r nod yw y bydd holl blant a phobl ifanc Cymru yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd.



Bydd y cyfnod
adborth yn cau ar
19 Gorffennaf 2019

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/dweud-eich-dweud/>



OGL

Digidol ISBN 978 1 83876 393 0
© Hawlfraint y Goron 2019
WG38065